S4C Masnachol Commercial

Pennaeth y Gronfa Twf

Teitl y swydd	Pennaeth y Gronfa Twf
Adran	S4C Masnachol
Rheolwr Llinell	Prif Swyddog Cyllid
Lleoliad	Mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Caernarfon. Yn ogystal, mae'n cynnig gweithio hybrid.
Teithio	Dros y DU a ledled y byd

PWRPAS Y SWYDD

Mae cangen fasnachol S4C, S4C Masnachol, yn lansio Cronfa Twf: cronfa fuddsoddi i fuddsoddi mewn busnesau sy'n agos at ac yn cyd-fynd â chylch gorchwyl S4C, sydd â photensial ar gyfer twf ac i sicrhau enillion strategol ac ariannol. Bydd Pennaeth y Gronfa Twf yn arwain y gweithgaredd ynghylch Cronfa Twf S4C, gan oruchwylio buddsoddiad mewn cwmnïau sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Gronfa ac yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau y buddsoddwyd ynddyn nhw i'w cefnogi i gyflawni twf llwyddiannus.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Byddwch yn gyfrifol am y canlynol:

BUDDSODDIAD Y GRONFA TWF

- Goruchwylio Cronfa Twf S4C Masnachol gydag atebolrwydd am ei pherfformiad.
- Hyrwyddo gwaith y gronfa, gyda ffocws penodol ar greu rhwydweithiau cryf ar draws yr economi greadigol yng Nghymru.
- Nodi targedau buddsoddi a chyfleoedd i fuddsoddi mewn busnesau twf sy'n cyd-fynd ag amcanion y Gronfa Twf.
- Gweithio gyda darpar fusnesau i'w buddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol gydag S4C Masnachol yn ystod y broses fuddsoddi a'u bod yn barod ar gyfer buddsoddiad.
- Goruchwylio'r gwaith o wneud bargeinion ar gyfer buddsoddiadau'r gronfa twf, gan weithio'n agos gyda thimau cyllid a chyfreithiol S4C.
- Sicrhau rheolaeth risg effeithiol a chydymffurfio â phrosesau a gofynion buddsoddi ac asesu, er enghraifft, diwydrwydd dyladwy a gwerthuso cyfleoedd buddsoddi.
- Sicrhau bod buddsoddiadau yn cael eu contractio yn effeithiol ac yn amserol.
- Sicrhau bod y gronfa yn cyflawni amcanion strategol S4C Masnachol a bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud yn unol â gofynion buddsoddi S4C.
- Nodi a rheoli partneriaethau cyd-fuddsoddi, lle bo'n briodol.

PERFFORMIAD BUSNESAU Y BUDDSODDIR YNDDYN NHW

- Gweithio gyda busnesau y buddsoddir ynddyn nhw i'w cefnogi i greu llwyddiant strategol ac ariannol.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

- Mynychu cyfarfodydd gyda'r rhai y buddsoddir ynddyn nhw (a allai gynnwys cyfarfodydd bwrdd) a rhoi cyngor a her adeiladol i fusnesau y buddsoddir ynddyn nhw. Gallech weithredu fel cyfarwyddwr i rai busnesau y buddsoddir ynddyn nhw.
- Goruchwylio penodi arbenigwyr / mentoriaid / cyfarwyddwyr anweithredol i weithredu ar ran S4C i gefnogi twf busnesau y buddsoddir ynddyn nhw.
- Gweithio'n agos gyda thîm cyllid S4C i sicrhau bod perfformiad ariannol y rhai y buddsoddir ynddyn nhw yn cael ei olrhain a'i fonitro'n weithredol.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i rai y buddsoddir ynddyn nhw yn eu perthynas ag S4C.
- Gweithio gyda rhai y buddsoddir ynddyn nhw i reoli eu 'cylch bywyd' o fewn y gronfa, gan gynnwys cynllunio ymadael.

S4C MASNACHOL

- Gweithredu fel ffynhonnell awdurdodol o arbenigedd ar fuddsoddi ar gyfer twf ar gyfer Grŵp S4C.
- Datblygu presenoldeb gweladwy yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru a'r DU, gan ddatblygu rhwydwaith i'r diwydiant
- Creu cydnabyddiaeth ar draws y diwydiant i rôl cronfa dwf S4C Masnachol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth a gallu o ran twf busnes gyda diwydiannau creadigol Cymru.

S4C ac S4C MASNACHOL

- Darparu cyngor a mewnwelediad i Fwrdd Masnachol S4C a sicrhau adroddiadau bwrdd rheolaidd, cywir ac effeithiol.
- Gweithio gydag uwch aelodau eraill o staff Grŵp S4C i sicrhau llwyddiant hirdymor cynaliadwy i S4C Masnachol.
- Rhoi mewnbwn i ddatblygiad strategol a gweithredol S4C Masnachol.
- Cymryd cyfrifoldeb am weithgareddau eraill o fewn S4C Masnachol os oes angen

Fel aelod o staff S4C byddwch yn sicrhau eich bod yn:

- ymwybodol o strategaeth S4C, gan sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau iechyd a diogelwch, diogelu data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at ddiwylliant S4C a chyflawni strategaeth fasnachol S4C.
- gweithio ar y cyd gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad personol.
- gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol ar draws y sefydliad, gan ddatblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob llwyfan a sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

S4C Masnachol Commercial

Manyleb y Person

Rhinweddau	Hanfodol	Dymunol
Profiad	NAILL AI a) 7+ o flynyddoedd o brofiad yn y diwydiannau creadigol gyda phrofiad amlwg o dyfu busnesau o fewn y diwydiant neu o gyflawni buddsoddiadau twf llwyddiannus, er enghraifft mewn rôl datblygu corfforaethol. neu b) 7+ o flynyddoedd o brofiad o gyllid corfforaethol, prosesau buddsoddi corfforaethol a gwneud bargen. Profiad o weithio gyda byrddau rheoli, partneriaid allanol a rhanddeiliaid.	
Sgiliau a gwybodaeth	Gwybodaeth am gysylltiadau o fewn diwydiannau creadigol y DU a bod â rhwydwaith ohonyn nhw. Sgiliau a phrofiad o negodi a gwneud bargeinion ar gyfer buddsoddiadau masnachol.	Siarad Cymraeg
Nodweddion Personol	Gallu naturiol i gydweithio. Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel o S4C a chyda rhanddeiliaid allanol.	

Manylion eraill

Lleoliad: Mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Chaernarfon ac maent yn gweithredu polisi gweithio'n hybrid. Disgwylir i chi deithio i le bynnag y bydd S4C yn rhesymol yn ei orchymyn.

Cyflog: Cyflog a bonws yn unol â phrofiad

Oriau gwaith: 35¾ yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

S4C Masnachol Commercial

Cytundeb: Parhaol

Cyfnod prawf: 6 mis

Gwyliau: Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau.

Pensiwn: Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn 12.00 ar ddydd Llun 5 Mehefin 2023 at adnoddau.dynol@s4c.cymru neu Adnoddau Dynol, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.